# POWYS IACH, GOFALGAR

## EIN GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL

CANOLBWYNTIO AR ANGHYDRADDOLDEBAU AC AR BOBL Â'R ANGEN MWYAF

GWELLA IECHYD A LLES

HYD 2027 A THU HWNT...




ARWEINYDD YM MAES IECHYD A GOFAL GWLEDIG INTEGREDIG







**Cyd-gynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys 2023-2028**

(Gan gynnwys Adolygiad Canol Tymor Strategaeth Iechyd a Gofal Powys)

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
One Powys Yn Un
Powys Regional Partnership Board
Health and Social Care

CRYNODEB - MEHEFIN 2023

# CYFLWYNIAD

**Mae ein Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn dod ag amrywiaeth o gynrychiolwyr ledled Powys ynghyd.**

Mae'r aelodau'n cynnwys y cyngor, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector, yn ogystal â dinasyddion a gofalwyr, er mwyn sicrhau bod pobl yn cydweithio'n well i wella iechyd a lles ledled y sir.

Dyma gynllun y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (RPB) ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar gynnydd a'r hyn a ddysgwyd yn y pum mlynedd diwethaf a dyma ein hymateb i ganfyddiadau **Asesiad Anghenion Poblogaeth Powys,** a oedd yn manylu ar anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl Powys.

Mae'r holl bartneriaid wedi dod at ei gilydd i gynhyrchu'r ail Gyd-gynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol hwn.

## Mae'n nodi sut y gallwn wella iechyd a lles pobl Powys.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys **Adolygiad Canol Tymor Strategaeth Iechyd a Gofal, Powys Iach a Gofalgar (2017 – 2027)** a bydd yn cyflawni camau terfynol yr uchelgais deng mlynedd honno.

**Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r Cyd-gynllun Ardal.**

**I gael mwy o wybodaeth ac i edrych ar y Cynllun llawn ewch i: cy.powysrpb.org**







# Cysylltwch â ni

prpb@powys.gov.uk | www.cy.powysrpb.org


**Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG**

# ‘CIPOLWG’ AR Y STRATEGAETH IECHYD A GOFAL AR GYFER POWYS


Powys

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board


RYDYN NI’N DATBLYGU GWELEDIGAETH AR GYFER DYFODOL IECHYD A GOFAL YM MHOWYS...





EIN NOD YW CYFLAWNI’R WELEDIGAETH HON GYDOL OES POBL POWYS...





FE FYDDWN NI’N CEFNOGI POBL I WELLA’U HIECHYD A’U LLES TRWY...




FE FYDD EGWYDDORION EGLUR WRTH WRAIDD EIN BLAENORIAETHAU A’R CAMAU Y BYDDWN NI’N EU CYMRYD...




FE FYDD DYFODOL IECHYD A GOFAL YN GWELLA TRWY...




Dyfodol y Gweithlu | Amgylcheddau Arloesol | Digidol yn gyntaf | Trawsnewid mewn Partneriaeth

All illustrations by ©Scarlet Design Int. Ltd 2017 www.FranOHara.com

# OVERVIEW AND INSIGHTS

**Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal yn darparu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys yn cydweithio'n well.**

Cafodd y Strategaeth Iechyd a Gofal a gyhoeddwyd yn 2017 ei datblygu ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ac ymchwil i'r hyn y mae trigolion a phartneriaid wedi'i ddweud am iechyd a gofal ym Mhowys.

O ystyried y newidiadau i iechyd a lles pobl yn y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi achub ar y cyfle i adolygu'r strategaeth yng ngoleuni'r data newydd sydd ar gael, y ddeddfwriaeth ac adborth y cyhoedd.

Rydym wedi defnyddio i raddau helaeth y safbwyntiau a'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o:

- Psesiad Anghenion Poblogaeth Powys (2022)
- Asesiad Lles (2022)
- Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ym Mhowys (2022)

Maent yn darparu gwell dealltwriaeth o fywyd yn y sir.

I gynhyrchu'r Cyd-gynllun Ardal hwn rydym wedi dadansoddi a defnyddio'r rhain, yn ogystal ag ymchwil, adborth a pholisi newydd arall.






Mae'r weledigaeth hirdymor yn parhau i amlygu pwysigrwydd bod pobl yn **'Dechrau'n Dda'**, **'Byw'n Dda'** a **'Heneiddio'n Dda'** drwy ganolbwyntio ar les, cymorth a chefnogaeth cyn gynted â phosibl, y pedair her iechyd fawr a gofal cydgysylltiedig.

## GWELLA IECHYD A LLES













Mae'r Cynllun Ardal wedi'i lunio gan yr holl fewnwelediadau hyn i ganolbwyntio ar gamau gweithredu â blaenoriaeth ar y cyd a all gael yr effaith fwyaf i fodloni anghenion newidiol y boblogaeth.

Mae'r strategaeth a'r amcanion lefel uchel yn parhau i fod yn adnabyddadwy i bartneriaid, cymunedau a phobl ym Mhowys. Maent yn parhau i osod y cyfeiriad strategol cywir ar gyfer cyflawni canlyniadau gwell.

# EGWYDDORION

Nodwyd chwe egwyddor drwy ymgysylltu helaeth a bydd y rhain yn parhau i arwain sut rydym yn creu dyfodol iach a ffyniannus i bobl a chymunedau Powys. Mae gwireddu'r weledigaeth yn golygu dod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng yr egwyddorion hyn.




## EGWYDDOR 1. GWNEUD BETH SY'N BWYSIG

Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar 'Beth Sy'n Bwysig' i bobl. Fe fyddwn ni'n cydweithio i gynllunio gofal a chymorth wedi'i bersonoli, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau sy'n bwysig i'r unigolyn.




## EGWYDDOR 2. GWNEUD BETH SY'N GWEITHIO

Fe fyddwn ni'n darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar 'beth sy'n gweithio', ar sail tystiolaeth, gwerthusiad ac adborth. Fe fyddwn ni'n cael sgyrsiau gonest ynglŷn â sut rydyn ni'n defnyddio adnoddau.





## EGWYDDOR 3. CANOLBWYNTIO AR YR ANGEN MWYAF

Fe fyddwn ni'n canolbwyntio adnoddau ar y rheiny sydd â'r angen mwyaf am help a chefnogaeth, mewn ffordd sy'n ystyried cenedlaethau'r dyfodol.





## EGWYDDOR 4. SICRHAU BOD GWASANAETHAU O FEWN CYRRAEDD TEG

Fe fyddwn ni'n sicrhau bod gofal arbenigol a thriniaethau a thechnolegau newydd o fewn cyrraedd teg, gan helpu i gyflawni Powys fwy cyfartal a chydnabod heriau gwledig.




## EGWYDDOR 5. BOD YN DDARBODUS

Fe fyddwn ni'n defnyddio adnoddau cyhoeddus yn ddoeth fel bod gwasanaethau iechyd a gofal dim ond yn gwneud y pethau mai dim ond y nhw sy'n gallu eu gwneud, gan gefnogi pobl i fod yn bartneriaid cyfartal a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u gofal.




## EGWYDDOR 6. GWEITHIO GYDA PHOBL A CHYMUNEDAU


Fe fyddwn ni'n gweithio gydag unigolion a chymunedau i ddefnyddio'u holl gryfderau mewn ffordd sy'n sicrhau'r iechyd a'r gofal gorau posibl i bawb, gan ganolbwyntio ar bob cam o fywyd — Dechrau Da, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.

# CANLYNIADAU POWYS IACH, GOFALGAR

Mae'r canlyniadau neu'r 'I-Ddatganiadau' canlynol a gynhyrchir ar y cyd yn parhau i fod yn berthnasol i'r hyn y bydd dinasyddion Powys yn gallu ei ddisgwyl yn 2027, a byddant yn parhau i lywio blaenoriaethau am gyfnod y Cynllun Ardal newydd.





- Rwy'n gyfrifol am fy iechyd fy hun a lles
- Rwy'n gallu byw bywyd bodlon
- Rwy'n gallu ac yn cael fy nghefnogi i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach am fy iechyd a lles meddyliol a chorfforol, i mi a fy nheulu
- Mae gen i gyfleoedd bywyd pwy bynnag ydw i a lle bynnag rwy'n byw ym Mhowys
- Mae fy amgylchedd/cymuned yn fy nghefnogi i fod yn gysylltiedig a chynnal iechyd a lles
- Fel gofalwr rwy'n gallu byw bywyd bodlon a theimlo bod cefnogaeth gennyf




- Rwy'n gallu cyrchu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn hawdd, i aros yn actif ac yn annibynnol
- Fel plentyn ac unigolyn ifanc, mae gen i'r cyfle i brofi'r dechrau gorau mewn bywyd
- Mae gennyf fynediad hawdd, cyngor a chymorth i'm helpu i fyw'n dda gyda'm cyflwr cronig





- Fel un o drigolion Powys rwy'n "adrodd fy stori" unwaith ac rwy'n hyderus bod y rhai sy'n gofalu amdanaf yn cydweithio er fy lles gorau
- Mae'r gwasanaethau rwy'n eu derbyn yn cael eu cydlynu ac yn ddi-dor
- Rwy'n gallu cael mynediad i adeiladau ac adnoddau a rennir at ddibenion lluosog, gan sefydliadau lluosog
- Mae fy nghymuned yn gallu gwneud mwy i gefnogi iechyd a lles




- Rwy'n rhan o gymuned lewyrchus sydd ag ystod o gyfleoedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, digwyddiadau cymdeithasol a mynediad at wasanaethau cyngor ac arweiniad
- Mae gennyf fynediad i Ganolfan Ranbarthol Wledig sy'n darparu iechyd a gofal un stop – diagnostig, cyngor ac arweiniad, triniaethau dydd, ac ati sy'n lleihau teithio diangen y tu allan i'r sir
- Rwy'n cael fy annog a'm galluogi i ddefnyddio'r awyr agored gwych i gefnogi fy lles a'm gofal
- Rwy'n gallu cael fy nghartref wedi'i addasu i'm helpu i fyw'n annibynnol a gwneud i mi deimlo'n ddiogel
- Mae gen i ofal sy'n addas i'r amgylchedd sy'n cyfoethogi fy mhrofiad




- Mae gennyf fynediad hawdd at gymorth, gwybodaeth a diagnosis cynnar
- Mae gennyf ymyrraeth gynnar a thriniaeth briodol
- Mae fy nhriniaeth a chymorth o ansawdd uchel, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn amsero




- Mae gennyf fynediad amserol at wasanaethau teg mor lleol â phosibl
- Rwy'n cael fy nhrin fel unigolyn gydag urddas a pharch
- Mae fy ngofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i mi
- Rwy'n derbyn gofal parhaus sy'n ddiogel ac yn bodloni fy anghenion
- Rwy'n ddiogel ac yn cael fy nghefnogi i fyw bywyd bodlon
- Rwy'n derbyn gofal diwedd oes sy'n parchu'r hyn sy'n bwysig i mi




- Mae'r rhai sydd eu hangen arnaf i'm cefnogi yn gallu gwneud penderfyniadau ac ymateb oherwydd eu bod yn wybodus ac yn gymwys. Os na allant fy helpu'n uniongyrchol, maent yn gwybod pwy sy'n gallu
- Fel gofalwr, rwyf i a'r rhai rwyf yn gofalu amdanynt yn rhan o'r "tîm"
- Rwy'n gallu cael mynediad i addysg, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu ym Mhowys sy'n fy ngalluogi i sicrhau a datblygu fy sgiliau a chyfleoedd
- Rwy'n cael fy ngalluogi i ddarparu gwasanaethau yn ddigidol lle bo'n briodol
- Rwy'n ymgysylltu ac yn fodlon â'm gwaith





- Rwy'n gallu dod o hyd i a gwneud yr hyn sydd angen i mi wneud ar-lein, megis gwneud neu newid apwyntiadau, talu fy miliau, hunanasesu neu gysylltu ag ymgynghorydd heb fod rhaid teithio
- Rwy'n cael cymorth i ddefnyddio technoleg a chael mynediad at adnoddau i ganiatáu i mi fod yn annibynnol yn ddigidol

# ‘CIPOLWG’ AR FLAENORIAETHAU’R CYD-GYNLLUN ARDAL 2023-2028

## Wellbeing Objectives





- 1.1 Datblygu Cymunedol
- 1.2 Cefnogi Gofalwyr
- 1.3 Gwella iechyd y boblogaeth, gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd




- 2.1 Iechyd a lles emosiynol
- 2.2 Modelau gofal, cymorth ac atal cyn gynted â phosibl
- 2.3 Cefnogi teuluoedd i aros gyda’i gilydd




- 3.1 Iechyd Meddwl
- 3.2 Canser
- 3.3 Anadlol
- 3.4 Cylchrediad




- 4.1 Cydlynu Gofal
- 4.2 Gofal heb ei drefnu
- 4.3 Gofal yn agosach at y cartref





## Enabling Objectives




- 5.1 Llunio, cynllunio a denu’r gweithlu
- 5.2 Arwain y gweithlu
- 5.3 Ymgysylltu a lles
- 5.4 Addysg, hyfforddiant a datblygiad
- 5.5 Partneriaeth a dinasyddiaeth




- 6.1 Gwybodaeth, cyngor a chymorth (gan gynnwys heb fod yn ddigidol)
- 6.2 Systemau gwybodaeth digidol
- 6.3 Amgylcheddau wedi’u galluogi’n ddigidol




- 7.1 Atebion yn seiliedig ar lety
- 7.2 Canolfannau gwledig, rhanbarthol
- 7.3 Hybiau Lles Cymunedol

- 8.1 Llywodraethu a diwylliant partneriaeth effeithiol ac effeithlon
- 8.2 Cyfranogiad dinasyddion
- 8.3 Dysgu ar draws y system i gefnogi arloesi, gwella a mabwysiadu modelau cynaliadwy
- 8.4 Gofal Sylfaenol a Chymunedol
- 8.5 Datblygu modelau darparu amgen, gan gynnwys gwerth cymdeithasol
- 8.6 Yr iaith Gymraeg

Adolygwyd y blaenoriaethau hyn yng ngoleuni adborth, yr hyn a ddysgwyd a data diweddar. Mae’r rhan fwyaf o’r blaenoriaethau hyn yn cael eu cynnal o’r Cynllun Ardal gwreiddiol, ond mae rhai diweddariadau. Mae pob blaenoriaeth â chod lliw fel yr isod.

Blaenoriaeth Wreiddiol (purple) · Blaenoriaeth Newydd (green) · Blaenoriaeth wedi’i Diweddaru (purple/green)

Note on colour coding: 1.3 is updated; 2.1–2.3, 5.1–5.5, 8.1, 8.3 are new; all others are original.

# MEYSYDD BLAENORIAETH ALLWEDDOL I GYFLWYNO AR RAGLENNI DECHRAU, BYW, HENEIDDIO'N DDA 'MEWN CIPOLWG

**Ailddatgan amcanion y Strategaeth Iechyd a Gofal a blaenoriaethau wedi'u hadnewyddu**

## DECHRAU DA

- Datblygu model iechyd a lles emosiynol ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyflawni bywydau iach, actif
- Plant a phobl ifanc i dderbyn cymorth dwys mewn Llety Mwy Diogel, yn agosach at y cartref
- Datblygu cefnogaeth integredig ymhellach i blant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol
- Galluogi cymorth a chefnogaeth cyn gynted â phosibl i blant a phobl ifanc sydd ar 'Ffiniau Gofal'

## BYW'N DDA

**Iechyd Meddwl – Pob Oed**

- Cefnogi gwytnwch pobl trwy therapi ar-lein
- Gwella gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Cefnogi ymyriadau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd
- Atal anghenion rhag gwaethygu a datblygu llwybrau cymorth
- Datblygu ymagwedd gydgysylltiedig at wasanaethau a hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma
- Gwella gwaith gyda dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth i gydgynhyrchu atebion

**Byw'n Dda - Oedolion**

- Datblygu dulliau atal a chydgysylltu cymunedol ym maes gofal cymdeithasol i fodloni anghenion gofal a chymorth pobl Powys
- Datblygu gofal yn y gymuned i ddarparu gofal cymhleth yn agosach at y cartref
- Grymuso pobl i ofalu amdanynt eu hunain a chael cymorth ar gyfer iechyd a lles emosiynol da, fel y gallant fyw eu bywydau i'r eithaf
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gofal gydag ymyriadau wedi'u targedu
- Creu atebion i bobl fyw mor annibynnol â phosibl o fewn eu cymunedau

## HENEIDDIO'N DDA

- Gweithredu model cymorth cyn gynted â phosibl trwy gefnogaeth leol
- Cynyddu cyfleoedd cynhwysiant i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd
- Lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal, trwy waith integredig gwell
- Gweithredu dull gofal cymunedol integredig, gan gynnwys moderneiddio gofal cartref, ailalluogi ac adsefydlu, gwneud y defnydd gorau o daliadau uniongyrchol a microfentrau, a gwella gallu cymunedol gan gynnwys cefnogi gofalwyr di-dâl
- Datblygu Gofal Ychwanegol ac atebion eraill ynghylch llety ac yn y gymuned, gan gynnwys gweithio gyda'r sector cartrefi gofal.

**Partneriaeth Strategol a Chynllun Cyflawni ac Adnoddau Blynyddol**

# CAMAU NESAF

**Bydd mesur effaith y newid arfaethedig ac olrhain cynnydd yn erbyn y canlyniadau a fwriedir** yn allweddol i gyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal a'r ail Gyd-gynllun Ardal 2023 – 2028.





## CYNLLUN CYFLAWNI MANWL

Mae'r Cynllun Ardal yn rhoi llwyfan a rennir ar gyfer datblygu cynllun darparu partneriaeth ac adnoddau - bydd yn manylu ar y camau penodol i'w cymryd yn y blynyddoedd i ddod er mwyn troi'r weledigaeth yn gamau gweithredu.

## MESUR EFFAITH

Bydd mesur effaith y newid arfaethedig ac olrhain cynnydd yn erbyn y canlyniadau a fwriedir yn allweddol i gyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal a'r ail Gyd-gynllun Ardal hwn.

Mae angen i ni wella sut rydym yn mesur effaith er mwyn cael sylfaen dystiolaeth gryfach trwy ddulliau a arweinir gan wybodaeth i ddata, ymgysylltu a mewnwelediad.

Maes allweddol i'w gyflawni y flwyddyn nesaf fydd gwreiddio'n llawn ddull gweithredu a fydd yn dod â dealltwriaeth gryfach o'r hyn sy'n gweithio'n dda ac yn dangos effaith trwy gymysgedd o wybodaeth feintiol ac ansoddol.

## CASGLIAD

Mae'r blynyddoedd blaenorol wedi bod yn heriol i bawb. Mae llawer iawn wedi gwneud cynnydd, ac eto mae'n amlwg bod angen llawer mwy. Edrychwn ymlaen at barhau â'n taith drwy'r cynllun hwn i gyflawni'r strategaeth iechyd a gofal.

# I gael mwy o wybodaeth...

**...cysylltwch â thîm**


prpb@powys.gov.uk

www.powysrpb@org

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys,
Neuadd y Sir, Llandrindod,
Powys, LD1 5LG


Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
One Powys Yn Un
Powys Regional Partnership Board
Health and Social Care